# Gofal Cymdeithasol a'r Hinsawdd - Mai 2022

Helo!

*Mae'r mandad i'r gymuned Iechyd a Gofal Cymdeithasol weithredu ar yr argyfwng hinsawdd yn gryfach nag erioed – **mae'n amser gweithredu:***

- Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 i 25) | LLYW.CYMRU
- Cynllun cyflenwi strategol ar gyfer datgarboneiddio GIG Cymru | LLYW.CYMRU
- Effeithiau Newid Hinsawdd ar Iechyd

## Dylech wybod:

- Allyriadau **Iechyd a Gofal Cymdeithasol** yw'r **mwyaf** yn y sector cyhoeddus
- Mae angen i'r **Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol leihau allyriadau o leiaf 16% erbyn 2025 a 34% erbyn 2030**
- Bydd y **Cynllun Datgarboneiddio Gofal Cymdeithasol** i gefnogi'r sector ar y daith hon yn cael ei gyhoeddi yr haf hwn!!!

## Ysbrydoliaeth a chymryd rhan:

- Os ydych chi'n ddarparwr bach neu ganolig (llai na 250 o weithwyr) gallech lofnodi'r Addewid Twf Gwyrdd i wneud ymrwymiad i leihau eich ôl-troed carbon. Bydd Busnes Cymru yn eich cefnogi gyda hyn, yn ogystal â chynnig cymorth ardderchog – **am ddim!**
- Os ydych yn ddarparwr gofal cymdeithasol mwy, peidiwch â phoeni! Gallech ystyried gweithio tuag at Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
- Mae Cymunedau Arloesi Economi Gylchol (CEIC) yn rhaglen 10 mis a ariennir yn llawn lle gallwch gwrdd â phobl debyg i chi a chreu datrysiadau gwasanaeth newydd, i leihau effaith gofal cymdeithasol ar yr hinsawdd – e-bostiwch ceic@cardiffmet.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth!!



At:

Rhannwch y cerdyn post i helpu i ledaenu'r negeseuon allweddol am ymateb y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r argyfwng hinsawdd!

O.N. **Hoffech chi fod yn rhan o'r hwyl?!**

Os hoffech chi wybod mwy neu ddod yn hyrwyddwr gofal cymdeithasol, neu os hoffech chi rannu syniadau neu ysbrydoliaeth o'ch ardal chi cysylltwch â: HSC.ClimateEmergency@llyw.cymru